# CYNLLUN GRANT TG 2021-2022 Y CYNNIG GOFAL PLANT

# CANLLAW I YMGEISWYR

## 1.0 Pwy sy'n gymwys i gyflwyno cais?

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, rhaid i'r lleoliad gofal plant fod:

- yn Rhondda Cynon Taf
- wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), neu mewn achos o leoliad newydd, fod yn gallu darparu ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gydag AGC cyn gynted â phosibl;
- wedi cofrestru gyda'r Cyngor i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed
- yn y broses o lenwi Cytundeb Darparwr Cynnig Gofal Plant RhCT ac y bydd yn cofrestru'r lleoliad gofal plant cyn gynted â phosibl;
- yn barod i brynu'r holl offer TG a chael ad-daliad gan y Garfan Cynnig Gofal Plant unwaith y bydd derbynebau/anfonebau a chofnodion dosbarthu wedi'u cyflwyno fel tystiolaeth cyn **15 Mawrth 2022.**

## 2.0 Beth mae modd ei ariannu?

Pwrpas Grant TG y Cynnig Gofal Plant yw darparu offer TG i leoliadau gofal plant at ddefnydd busnes yn unig ac **nid** at ddefnydd y plant sy'n mynychu'r lleoliad gofal.

| Enghreifftiau o Galedwedd TG | Cymeradwy? Ydy neu Nac ydy |
|---|---|
| Gliniadur | Ydy |
| Cyfrifiadur | Ydy |
| Argraffydd | Ydy |
| Llygoden | Ydy |
| Peiriant rhwygo | Ydy |
| Dyfais atgyfnerthu'r cysylltiad di-wifr | Ydy |
| Llwybrydd di-wifr symudol *(caledwedd yn unig – fydd dim modd talu costau misol)* | Ydy |
| Meddalwedd | Posib |
| Cyfrifiaduron llechen | Nac ydy |
| Papur | Nac ydy |
| Inc | Nac ydy |
| Ategolion e.e. clawr gliniadur | Nac ydy |

## 3.0 Cyflwyno Cais

Rhaid llenwi ceisiadau yn electronig a'u hanfon mewn e-bost i:
GrantiauGofalPlantRhCT@rctcbc.gov.uk erbyn **Gwener 11 Chwefror 2022**.

## 4.0 Proses Dalu

Bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad BACS i'r cyfrif banc busnes sydd wedi'i nodi yn y cais. Bydd yr arian yn cael ei roi dim ond ar ôl derbyn ffurflen hawlio grant wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd. Rhaid i'r ffurflen hawlio grant yma gynnwys:

- Anfonebau gwreiddiol wedi'u heitemeiddio gan y cyflenwr/cyflenwyr, i gynnwys dim ond yr offer hwnnw a oedd wedi cael ei gymeradwyo yn benodol yn y Ffurflen Gais am Grant TG;

Anfonwch e-bost i GrantiauGofalPlantRhCT@rhondda-cynon-taf.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.